# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Chwefror 11 2025**

**COFNODION**

**241.2.25 Presennol : Cynghorwyr :-** Aled Griffith ( Cadeirydd); Glenda Murray; Karena Owens; Alwyn Gruffydd; Gwilym Jones; Carol Hayes; Michael Roberts
Marian Roberts ( Clerc)
**Absennol :- Cynghorwyr :-** Llywelyn Rhys; Trefor Jones

**242.2.25 Ymddiheuriadau :-** Cyng Dr Melfyn Edwards

**243.2.25 Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**
**Cyfarfod Llawn Ionawr 14 2025**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Glenda Murray, Cyng Karena Owens yn eilio.
**Cyfarfod Pwyllgor Cyllid ac Eiddo Ionawr 28 2025**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**244.2.25 Adroddiad y Clerc**
Cofnodwyd y canlynol :-

- 23.1.25 Cyfarfod Cydlynydd Llesiant – Cyng Glenda Murray a'r Clerc wedi mynychu a bydd Cyng Gwilym Jones yn ymuno yn y cyfarfod nesaf.
- Baneri – mae'r baneri newydd wedi eu rhoi ar y polion yn barod i'w gosod yn eu lle ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.
- Howard Bowcott – y 4 gwaith celf newydd bellach yn eu lle ac yn wlêdd i'r llygad.
- Harbwr 200 – Cyfarfod Cyhoeddus yn Y Ganolfan wedi ei drefnu ar gyfer 5.3.25.
- Arwyddion ar goedlannau Cae Bodawen – y Clerc wedi atgoffa Hywyn Williams C.G. unwaith eto ar ôl gweld cymaint o arwyddion effeithiol iawn wedi eu gosod yn y Nyrseri.
- Nadolig – rhagrybudd o drafodaeth pellach yng nghyfarfod 11.3.25.

Roedd y Cadeirydd, Cyng Aled Griffith, yn dymuno datgan ei werthfawrogiad o waith Howard Bowcott.

**245.2.25 Datgan diddordeb.**

**Ceisiadau Ariannol**
Gadawodd y aelodau canlynol y cyfarfod tra bu trafodaeth ar y cais perthnasol:-

| | |
|---|---|
| Cais 1. Yr Wylan | Cyng Carol Hayes |
| | Cyng Karena Owens |
| Cais 6. Merched y Wawr | Cyng Glenda Murray |
| Cais 7. Cyfeillion Morfa Bychan | Cyng Gwilym Jones |
| Cais 9. Cyngor Cymreictod | Cyng Glenda Murray |
| Cais 15. Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb | Cyng Gwilym Jones |

**246.2.25 CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Dim cais wedi dod i law.**

**MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**

**247.2.25 Ethol Is-Gadeirydd**
Diolchwyd i'r Cyng Gwilym Jones am gytuno i ymgymryd â'r cyfrifoldeb.
**248.2.25 Diweddariad gan y Pwyllgor Staffio**
Nodwyd fod hysbyseb swydd y Clerc wedi ei roi ar wefan Un Llais Cymru, lleol.com a safleswyddi.com a bydd yn rhifyn Chwefror o'r Wylan a'r Ffynnon. Mae hysbyseb wedi ei roi hefyd yn yr hysbysfwrdd. Cafwyd 2 ymholiad am y swydd hyd yma.
**249.2.25 Penderfynu ar drefnu cerdyn debyd ar gyfer y cyfri banc**
**Penderfynwyd :-** trefnu i gael cerdyn debyd ar gyfer y cyfri banc er mwyn hwyluso taliadau tanysgrifiadau ar-lein a chostau gweinyddol eraill yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Glenda Murray yn eilio.

**MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

**250.2.25 Cyng Alwyn Gruffydd :- cynnig adolygu'r Polisi Iaith.**
**Penderfynwyd :-** diddymu'r polisi presennol ( **rhaglen a chofnodion dwyieithog** ) fel mabwysiadwyd ym mis Mai 2024 a mynd yn ôl i'r hen bolisi ( **uniaith Gymraeg**) yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**Cymerodd yr Is-Gadeirydd y gadair i lywyddu'r cyfarfod tra bu trafodaeth ar gynnig y Cadeirydd.**

**251.2.25 Cyng Aled Griffith :- cynnig gwneud cais i Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd am arwyddion newydd ar lwybr Capel Peniel**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig gan ychwanegu cais am fin baw ci ymhob pen i'r llwybr yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**Dychwelodd y Cadeirydd i'r Gadair i lywyddu gweddill y cyfarfod.**

**252.2.25 Cyng Alwyn Gruffydd :- cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd a Heddlu'r Gogledd i gwyno am geir yn parcio y tu allan i'r hen Madoc Garage, Tremadog gan darfu ar gerddwyr, ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r llwybr plant i Ysgol y Gorlan ac i ofyn pwy yn union sydd berchen y llain tir yma.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Carol Hayes yn eilio.

**253.2.25 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Mawrth 11 2025 = Mawrth 1 2025 , ( Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Michael Roberts :-** cynnig gwneud cais i Gyngor Gwynedd ganiatau cŵn i ran o'r Parc.
- **Cyng Michael Roberts :-** cynnig gofyn i berchennog Capel y Garth i ddiogelu'r safle.

**254.2.25 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**
**Penderfynwyd :-**
- y Clerc i olygu fel bo'r galw ac i yrru copi o boster Cyfarfod Cyhoeddus Harbwr 200 i'r ysgolion.
- gyrru copi o'r rhestr i sylw Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

**GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| **255.2.25** | **ERYL OWEN** | **Argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg** **Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a gyrru copi o'r llythyr parod i Mark Drakeford ac Eluned Morgan yn ôl |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio. |
| **256.2.25** | **BETHAN PRICE** | **Ymateb i 238.1.25 lleoliad meddygfa Porthmadog**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **257.2.25** | **IWAN AP TREFOR** | **Ymateb i 226.1.25 parcio o flaen Spar**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **258.2.25** | **ADRAN CYNLLUNIO** | **Ymateb i 161.11.24 newid defnydd Bar 61**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth |
| **259.2.25** | **SIAN GWENLLIAN AS** | **Sefydlu ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor**<br>**Cynnig**<br>**Llythyr at Jeremy Miles AS**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a gyrru copi o'r llythyr parod i Jeremy Miles yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Gwilym Jones yn eilio. |
| **260.2.25** | **R.J.ELECTRICS** | **Ymateb i 239.1.25 oedi cyn talu am y gwasanaeth**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a dal yn ôl ar y taliad tan ar ôl trafodaeth mis Mawrth. |
| **261.2.25** | **JEREMY DAVIES** | **Llythyr cais cyfethol i sedd wag Gest**<br>**Penderfynwyd :-** cyfethol Jeremy Davies fel aelod dros Ward Gest yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Karena Owens yn eilio. |
| **262.2.25** | **UN LLAIS CYMRU** | **Cyfarfod blynyddol ar lein 11.3.25**<br>**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a'r Clerc i gofrestru Cyng Alwyn Gruffydd ar gyfer y cyfarfod. |

**<u>263.2.25 MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc  Rhagfyr 2024 Ionawr 2025 | £56.20 |

**Ychwanegwyd anfoneb rhif 8 i'r rhestr wreiddiol.**
**Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Gwilym Jones yn eilio:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Ionawr 2025 | £ 67.23 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Ionawr 2025 | £1,597.44 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Ionawr 2025 | £ 399.36 |
| 4 | Clerc | Ad-daliad am 16 x stamp 2il ddosbarth | £13.60 |
| 5 | Clerc | Ad-daliad am hysbyseb swydd ar lleol.cymru | £180.00 |
| 6 | Cricieth Cleaning | Glanhau llochesi bws 18.10.24 i 15.1.25 | £403.20 |
| 7 | Fray Countryside Contractors | Torri coed Cae Pawb | £696.00 |
| 8 | R.J.Electrics | Tynnu'r goleuadau oddiar goed y Parc er mwyn i Gyngor Gwynedd eu tocio | £1,125.60 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

**264.2.25 Lwfans Blynyddol Cynghorwyr 2024-2025**

Ffurflenni **gwrthod** lwfansau i'w llenwi a'u dychwelyd i'r Clerc erbyn **28.2.2025** er mwyn i'r aelodau sy'n derbyn lwfans gael taliad mis Mawrth allan o gyllideb 2024/2025.

**265.2.25 Ceisiadau Ariannol 2024/2025**

**Rhanwyd y grantiau fel a ganlyn :-**

| ENW'R ELUSEN/ CYMDEITHAS/ CLWB | RHESWM DROS GAIS 2025 | CYFRANIAD 2025 | Cynnig / eilio |
|---|---|---|---|
| 1. Yr Wylan | costau cyhoeddi Yr Wylan. | £1,000.00 | Cyng Gwilym Jones<br>Cyng Michael Roberts |
| 2. Neuadd Goffa Tre-madog | cost rhedeg sylfaenol y neuadd, yswiriant, nwy a thrydan | £1,000.00 | Cyng Gwilym Jones<br>Cyng Carol Hayes |
| 3. HICYP | darparu gweithgareddau amrywiol megis chwaraeon, nosweithiau thema, a chyfleoedd arbennig fel gweithdai Coleg Y Bala; cynnal nosweithiau noddi er budd cymunedol; sicrhau parhâd y clwb | £300.00 | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Glenda Murray |
| 4. TI A FI PORTHMADOG | sicrhau bod y clwb yn parhau i dyfu a datblygu ar gyfer y dyfodol; darparu taith haf i'r plant; anrhegion Nadolig; gefnogi teuluoedd yn ein cymuned. | £500.00 | Cyng Gwilym Jones<br>Cyng Carol Hayes |
| 5. Cyfeillion Borth y Gest | *planghigion gwasarn ar gyfer y cychod; basgedi a tybiau blodau* | £200.00 | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Glenda Murray |
| 6. Merched y Wawr Port. | costau siaradwyr, costau llogi neuadd, llogi pianos a cyfrannu elfen o dâl aelodaeth lleol | £200.00 | Cyng Michael Roberts<br>Cyng Karena Owens |
| 7.Cyfeillion Morfa Bychan | Rhent i'r Ganolfan;<br>Costau hysbysebu ac argraffu; gwiriad DBS ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n hebryngwyr; Tystysgrif iechyd a diogelwch a thystysgrifau hylendid bwyd os oes angen; Cwrs cymorth cyntaf | £200.00 | Cyng Michael Roberts<br>Cyng Carol Hayes |
| 8. Clwb Pêl Droed Porthmadog | datblygu y Wifi o fewn y stadiwm | £500.00 | Cyng Michael Roberts<br>Cyng Alwyn Gruffydd |
| 9. Cyngor Cymreictod Ysg Eifionydd | gwahodd dau o fandiau mawr llwyddiannus y Sin Roc Gymraeg i Ysgol Eifionydd i rannu y diwylliant hwnnw hefo'r disgyblion | £1,000.00 | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Karena Owens |
| 10. Criw Cymraeg Ysg Eifion Wyn | Uchelseinydd i chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn yr iard; cynnal gig;cynnal clwb ar ôl ysgol;cynnal gweithdai celf | £1,000.00 | Cyng Michael Roberts<br>Cyng Alwyn Gruffydd |
| 11. Cyfeillion Ysgol y Gorlan | prynu adnoddau ar gyfer maes chwarae awyr agored, a fydd yn cefnogi datblygiad sgiliau chwarae tu allan y plant. Bydd adnoddau megis offer sgipio, pel fasged, 'cones' peli yn hybu'r sgiliau yma | £500.00 | Cyng Gwilym Jones<br>Cyng Carol Hayes |
| 12. THEATR BARA CAWS | parhau i allu cynnig arlwy ac adloniant yn eich ardal ac ardaloedd ar draws Cymru. | Dim | Cyng Gwilym Jones<br>Cyng Alwyn Gruffydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13. Clwb Chwaraeon Madog | Uwchraddio tô yr adeilad i'w gadw'n sych | £1,000.00 | Cyng Gwilym Jones<br>Cyng Carol Hayes |
| 14. Y Ganolfan | *Prynu 2 kit camerau digidol i'w defnyddio fel rhan o brosiect **Port a Fi** a phrosiectau eraill a ddatblygir wedi hynny; Defnyddio'r offer i ddatblygu sgiliau a chynnig hyfforddiant a allai arwain at gyflogaeth; Hwyluso a datblygu prosiectau celfyddydol, yn bennaf ar gyfer pobl ifanc yr ardal.* | £5,000.00 | Cyng Gwilym Jones<br>Cyng Michael Roberts |
| 15. Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb | Trwshio ffensus ac ati ar ol stormydd y gaeaf. Bydd angen dau fag o gerrig man i gryfhau y lon i fewn i Cae Pawb; dau arwydd newydd ar y giat sydd yn fenydfa I'r rhandiroedd.; dwy ferfa I'r garddwyr eu defnyddio pan rydym yn symud gwrtaith ac ati o'r maes parcio ac yn trwshio y llwybrau a'r brif lon. | £500.00 | Cyng Alwyn Gruffydd<br>Cyng Glenda Murray |

Daeth y cyfarfod i ben am 20.35

Marian Roberts
( Clerc )

*Marian Roberts (Clerc/Clerk),29 Maes Gerddi, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9LE*
*Ffôn / Tel : 01766 513709*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*